



Archifau Morgannwg

Polisi ar gyfer y Cyfryngau sy'n Defnyddio'r Archifau

Rhaid i'r sawl a hoffai ffilmio dogfennau gwreiddiol roi gwybod ymlaen llaw i Archifau Morgannwg am y bwriad hwnnw. Dylai aelod o'r tîm cynhyrchu drafod y prosiect arfaethedig gyda staff yr Archifau o leiaf 2 wythnos cyn dechrau ffilmio (neu'n gynharach yn achos prosiectau mawr).

Dylai aelod o'r tîm cynhyrchu ymweld ag Archifau Morgannwg er mwyn ystyried pa mor addas yw at ddibenion ffilmio. Cyfrifoldeb y tîm cynhyrchu yw cadarnhau a fydd yr adeilad yn addas ai peidio.

Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig perchnogion y dogfennau sydd i'w ffilmio. Bydd Archifau Morgannwg yn gofyn am ganiatâd o'r fath ar ran y cwmni, ac yn codi'r tâl priodol yn rhan o'r ffi am ddefnyddio'r cyfleusterau.

Rhaid cyflwyno cyfeirnodau'r dogfennau sydd i'w defnyddio o leiaf 2 diwrnod cyn dyddiad y ffilmio. I'r perwyl yma, dylai aelod o'r tîm cynhyrchu chwilio'r catalogau.

Camau ymarferol y dylai'r cyfryngau eu mabwysiadu wrth ffilmio neu ddefnyddio dogfennau mewn modd arall

Rhaid cadarnhau eich bod yn fodlon cadw at yr amodau sydd wedi'u pennu yn y ddogfen hon drwy lofnodi cytundeb ymlaen llaw. Os na chawn y cytundeb hwn, ni chaniateir i chi ddechrau ffilmio.

Diogelwch y dogfennau yw prif ystyriaeth Archifau Morgannwg.

Ni chaniateir i ddogfennau gael eu ffilmio os oes unrhyw risg o ddifrod.

Dim ond yn ystod oriau agor arferol Archifau Morgannwg y byddwch chi'n cael ffilmio. O dan amgylchiadau eithriadol, efallai bydd modd trefnu ffilmio y tu allan i oriau arferol, os oes staff ar gael, a byddwn yn codi tâl ychwanegol am hynny.

Dim ond yn Archifau Morgannwg y gellir ffilmio dogfennau fel arfer.

Bydd archifydd yn goruchwyllo'r ffilmio a'r defnydd o ddogfennau drwy'r adeg.

Mae'n rhaid rhoi'r gorau i ffilmio ar gais yr archifydd.

Mae'r archifydd yn cadw'r hawl i gymryd dogfen yn ôl rhag ei ffilmio os yw'n

ymddangos ei bod mewn perygl.

Mae rheolau cyffredinol Archifau Morgannwg ar ddefnyddio archifau yn berthnasol:

- Ni chaniateir bwyta nac yfed mewn mannau cyhoeddus yn adeilad yr Archifau
- Ni chaniateir unrhyw ysgrifbinnau neu offer ysgrifennu ar wahân i bensiliau yn agos i'r dogfennau
- Ni chaniateir unrhyw sylweddau adlynol yn agos i'r dogfennau (gan gynnwys tâp gaffer)

Bydd gweithdrefnau argyfwng Archifau Morgannwg yn berthnasol – os yw'r larwm tân yn seinio, mae'n rhaid rhoi'r gorau i'r ffilmio'n syth a dylai pawb adael yr adeilad.

Bydd gormod o wres yn niweidio'r dogfennau. Dylid defnyddio goleuadau oer lle bo'n bosibl.

Rhaid trafod y dogfennau'n ofalus, gyda pharch. Dylai'r tîm cynhyrchu osgoi cyffwrdd â'r dogfennau oni bai bod angen hynny. Os bydd angen gafael yn y dogfennau i raddau helaeth, efallai y byddwn yn mynnu eich bod yn defnyddio copïau. Rhaid rhoi gwybod i'r Archifau ymlaen llaw os bydd angen copïau o'r fath.

Rhaid osgoi defnyddio'r dogfennau fel celfi artistig. Dim ond staff yr Archifau sy'n cael gosod y dogfennau yn y fan angenrheidiol. Ni fydd modd pentyrru'r dogfennau gwreiddiol i ychwanegu at naws yr olygfa. Mae'r archifydd yn cadw'r hawl i fynnu eich bod yn defnyddio copïau os oes angen creu effaith artistig (gweler uchod).

Rhaid defnyddio unrhyw bwysau papur, ategion neu ddeunyddiau diogelu mae Archifau Morgannwg yn eu darparu yn ystod y ffilmio. (Mae Archifau Morgannwg yn derbyn nad yw'n bosibl ffilmio dogfen trwy amlen blastig ond, o'i thynnu allan o'i hamlen, rhaid osgoi unrhyw gyffwrdd diangen).

Rhaid rhoi'r gydnabyddiaeth briodol yn y cynhyrchiad terfynol.

Ffioedd

Rhaid cytuno ar y ffi am ddefnyddio'r cyfleusterau ymlaen llaw.

Bydd y ffi yn cynnwys llogi'r adeilad, talu'r staff, defnyddio'r offer, defnyddio'r dogfennau a /neu'r copïau, unrhyw asesiad rhagarweiniol ynglŷn â chadwraeth, a chydabyddiaeth o arbenigedd proffesiynol y staff.

Mae'n rhaid darparu manylion talu anfonebau (lle ac i bwy) cyn ffilmio.